Cyngor Cymuned Ganllwyd

Rhagfyr 11fed 2024

**Presennol**

Cyng D.Morris, C.Dixon,S.Roberts,G.Jones,D.Griffiths.

**Ymddiheuriadau**

Cyng S.Jones.

**Cofnodion Tachwedd 2024.**

Cynnigodd Cyng S.Roberts fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Gwefan Neuadd y Pentref- mae swyddogion neuadd y pentref wedi edrych i mewn i'r mater yma, bydd y gost tua £30 y mis a bydd penderefyniad yn cael ei wneud i'w osod yn Ionawr 2025.

Grant y Parc- bydd Cyng Morris yn gyrru anfoneb er mwyn i'r cyngor cael cwblhau cynnig am y grant!

Caru Coed y Brenin.

Mynychwyd y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan CNC ac a gynhaliwyd yn neuadd bentref Ganllwyd ar y 27ain o Dachwedd 2024. Cadarnhawyd yn ystod y cyfarfod bod CNC yn bwriadu cau'r caffi a chyfleusterau eraill o'r fath ar 1af o Ebrill er gwaethaf pryderon a godwyd gan y rhai sy'n bresennol a sylwadau a wnaed gan aelodau'r gymuned, cynrychiolwyr gwleidyddol ac asiantaethau eraill ynghylch y penderfyniad.

Mae AS Mabon Ap Gwynfor wedi bod yn llwyddianus cael trafod y mater yma yn y senedd ar yr 8fed o Ionawr 2025.

Mae'r cynllun busnes drafft ynghylch y caffi yn Coed y Brenin wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei ddadorchuddio ar y cyfle priodol.

Cynghorwr Sir.

Yn dilyn cynnig a gyflwynwyd gerbron cabinet Cyngor Gwynedd gan y Cynghorydd Griffiths mewn cyfarfod yn Caernarfon ar y 5ed o Ragfyr 2024 ynglŷn â'r diffygion yn y rheolau ynghylch cyfnewid tai cymdeithasol yng Ngwynedd mae'r mater hwn bellach wedi cael ei anfon ymlaen i'r cynulliad yng Nghaerdydd i'w drafod.

Bydd diweddariadau yn cael eu darparu ar yr amser priodol.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Tachwedd 2024

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £5295.10 |

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.00 |
| Gwasanaeth tir a choed | £1080.00 |
| Rhodd-Ambiwlans awyr | £100.00 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £4010.10 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

**Materion cymunedol.**

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynnu cynnal arolwg o’r trefniadau etholiadol a fydd yn cynnwys ysteriad y trefniadau etholiadaol o fewn pob cymuned yn Ngwynedd h.y nifer o gynghorwyr, nifer a natur y wardiau.

Bydd y cyfnod cyntaf o ymgynghori yn dechrau 11/11/2024 a gorffen 20/12/2024.

Mae’r manylion a sut i ateb ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

Bydd y clerc yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd er mwyn ysgubo hen ffordd Gelligemlyn.